# ASESIAD O EFFAITH INTEGREDIG -

# Mehefin 2026

## CYNNIG Y DDARPARIAETH ADDYSG GATHOLIG

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney erbyn 31 Awst 2027.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
- Byddai'r uno'n golygu:
  - y byddai'r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2027;
  - y byddai ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir 3-18 oed cyfrwng Saesneg newydd gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ar 1 Medi 2027;
  - y byddai'r ysgol newydd yn gweithredu dros y tri safle presennol nes bydd adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu (rhagwelir Medi 2030).

**Gwanwyn - Haf 2026**

## RHAN A. CYFLWYNIAD

Yn Sir y Fflint mae chwe ysgol wedi eu categoreiddio fel ysgolion Catholig gwirfoddol a gynorthwyir cyfrwng Saesneg:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant, yr Wyddgrug.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, y Fflint.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Santes Gwenffrewi, Treffynnon.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton.
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint

At ddibenion y ddogfen hon, cyfeirir at yr ysgolion gan ddefnyddio eu henw unigryw byrrach. Er enghraifft, cyfeirir at Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney, fel Ysgol Sant Anthony.

Mae ysgolion Sant Anthony, Dewi Sant, y Santes Fair a Sant Richard Gwyn yn cael eu cynnwys yn y cynnig hwn a byddant yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol os bydd yn cael ei roi ar waith.

Mae'r ddogfen hon yn cefnogi'r ddogfen Ymgynghoriad Statudol y dylai ymgyngoreion ei hystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori.

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Catholic-Education-Proposal.aspx

Bydd y cyfnod ymgynghori yn agor ddydd Mawrth **16 Mehefin 2026** ac yn dod i ben am 11.59pm ddydd Mercher **29 Gorffennaf 2026**.

Y ffigyrau, ystadegau a deunydd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yw'r rhai mwyaf cywir sydd ar gael adeg paratoi a chyhoeddi.

Mae Asesiadau o Effaith yn ddogfennau gweithio a fydd yn cael eu diweddaru yn dilyn gwybodaeth ac adborth o'r broses ymgynghori.

## RHAN B. PWRPAS YR ASESIAD

Nod yr Asesiad o Effaith Integredig yw nodi'r effeithiau cadarnhaol, niwtral a negyddol posibl i ysgolion sy'n destun cynnig i newid trefniadaeth ysgolion.

Bydd yr Asesiad hwn yn ystyried sut mae'r cynnig yn cyfrannu at nodau'r Cyngor dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut maen nhw'n bodloni'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Lle bo modd, mae camau wedi'u hamlinellu a allai wella neu gynnal effaith gadarnhaol neu niwtral neu a allai leihau neu waredu effaith negyddol.

# RHAN C. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

## C.1. Y Nodau




Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r ddeddfwriaeth yn amlinellu 7 nod lles sy'n darparu gweledigaeth a rennir i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag atynt, sef:

## C.2. Datblygu Cynaliadwy

Mae egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i chynnwys yn y Ddeddf hefyd, sy'n golygu bod yn rhaid i'r Cyngor weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

Mae 5 Dull o Weithio a all ddangos sut mae'r Cyngor wedi gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy:

- Hirdymor.
- Atal.
- Integreiddio.
- Cydweithio.
- Cyfranogi.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy ddilyn y ddolen hon https://futuregenerations.wales/cym/darganfod/cenedlaethaur-dyfodol-cymru/deddf-cenedlaethaur-dyfodol-2015/

# RHAN D. MEYSYDD ASESU

Mae sawl maes a allai gael eu heffeithio gan unrhyw gynigion ac mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i bob un.

Mae'r asesiadau o effaith canlynol wedi'u hintegreiddio i'r ddogfen hon er mwyn darparu gwerthusiad cynhwysfawr o effaith bosibl:

- Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Iechyd a Lles
- Tlodi, ac
- Addysg a Sgiliau.

# RHAN E. EFFEITHIAU POSIBL

## E.1. Cyfraniad at y Nodau Lles

| Disgrifiad | Cyfraniad |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | |
| Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang, ac felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd am waith, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith addas. | Bydd hyn yn parhau buddsoddiad y Cyngor dan Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.  Mae'r Rhaglen yn fuddsoddiad hirdymor ar gyfer ysgolion a cholegau er mwyn eu datblygu'n ganolfannau dysgu a lleihau nifer yr adeiladau sydd mewn cyflwr gwael.<br><br>Cynigir gwaredu pedair ysgol mewn adeiladau aneffeithiol a'u disodli gydag un ysgol a gaiff ei hadeiladu i fodloni'r safonau Sero Net, sy'n golygu y bydd yn gwneud defnydd effeithiol o ynni ac adnoddau yn y broses adeiladu.<br><br>Cydnabyddir y gall amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel gael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth addysg, drwy gynnig gofod diogel a llawn ysbrydoliaeth i ddysgu, a fydd yn arwain at gyfleoedd cyflogaeth gwell.<br><br>Bydd yr adeiladwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio masnachwyr o'r gadwyn gyflenwi leol lle bo hynny'n bosibl yn ymarferol. |
| **Cymru Gydnerth** | |
| Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd bioamrywiol naturiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid. | Mae adeiladau ysgol newydd yn gwaredu problemau a chostau cynnal a chadw. Drwy ddylunio clyfar, defnyddio deunyddiau modern a gweithredu egwyddorion Carbon Sero Net, caiff strwythurau eu hadeiladu mewn modd cynaliadwy er mwyn lleihau'r effaith tanwyddau ffosil a newid hinsawdd. |

| Disgrifiad | Cyfraniad |
|---|---|
| | Mae bioamrywiaeth yn ystyriaeth gref mewn unrhyw adeilad newydd, ac rydym yn gweithio gydag Adeiladwyr a'n tîm Bioamrywiaeth i wella'r amgylchedd naturiol mewn unrhyw ddyluniad newydd.<br><br>Mae'r Cyngor wedi adeiladu ystod o ysgolion newydd ar draws y Sir, rydym wedi cwblhau un campws ysgol i weithredu yn ddi-garbon net eleni, ac yn y camau terfynol ar gyfer adeiladu ysgol Gymraeg sy'n gweithredu'n ddi-garbon net. Mae gennym brofiad sylweddol o gyflwyno ysgolion newydd o'r cysyniad gwreiddiol i'w hadeiladu gan sicrhau eu bod yn gynaliadwy'n amgylcheddol ac yn darparu'r amgylcheddau gorau posibl ar gyfer ein dysgwyr. |
| **Cymru Iachach** | |
| Cymdeithas lle gwneir y mwyaf o les corfforol a meddyliol pobl a lle mae dewisiadau ac arferion sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol yn cael eu deall. | Bydd amgylchedd dysgu newydd a chyfoes yn meithrin plant a phobl ifanc, gan ddarparu noddfa a fydd yn helpu i hyrwyddo iechyd meddwl.<br><br>Bydd gofod allanol a fydd yn galluogi'r ysgol i ddatblygu ac annog cyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol megis chwaraeon ac ardaloedd i ryngweithio gyda'r byd naturiol.<br><br>Er ein bod yn deall y gall y newidiadau hyn gael effaith ar les y disgyblion, staff a rhieni / gofalwyr yn fyrdymor, rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer disgyblion yn awr ac yn y dyfodol. Mae cefnogi iechyd meddwl plant yn flaenoriaeth allweddol, ac os ydi'r cynnig yn symud yn ei flaen, byddwn yn gweithio'n agos gydag ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau arbenigol i sicrhau bod unrhyw bontio yn cael ei reoli â gofal, sensitifrwydd, a chefnogaeth briodol i bob dysgwyr yn unol â pholisi lleol. |
| **Cymru sy'n Fwy Cyfartal** | |
| Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol) | Darparu amgylchedd addysg cyfoes a fydd yn gwella'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyflawni eu potensial.<br><br>Bydd yr ysgol newydd yn darparu cydraddoldeb o ran mynediad at gynnig cwricwlwm eang a chytbwys, nad yw bob amser ar gael mewn ysgolion llai, gan gynnwys gofynion y Cwricwlwm i Gymru newydd, a chynnig gwell o ran chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol. |

| Disgrifiad | Cyfraniad |
|---|---|
| **Cymru o Gymunedau Cydlynus** | |
| Cymunedau deniadol, diogel, hyfyw sydd â chysylltiadau da. | Mae'r cynnig yn cynnwys ailddatblygu tir mewn lleoliad canolog yn y gymuned, a fydd yn gwella'r ardal. Yn ystod y broses ddylunio, ystyrir cynnwys gofodau i'w defnyddio gan y gymuned a fydd yn caniatáu i oedolion ddysgu, cyfarfod a chynnal digwyddiadau bychain. Mae'n bosibl y bydd y prosiect hefyd yn darparu cyfleuster gofal plant arbennig.<br><br>Bydd hyn yn annog rhwydweithio cymdeithasol ac yn hyrwyddo undod ymhlith y gymuned.<br><br>Rydym yn deall pryderon y cymunedau, a fydd yn wynebu colli eu hysgol Gatholig leol o bosib, ac unrhyw ddarpariaethau sy'n gysylltiedig â hynny. Mae asesiad o effaith ar y gymuned wedi'i gyflawni ar wahân sy'n cynnwys mewnbwn gan yr ysgolion fel rhan o'r ymgynghoriad. |
| **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu** | |
| Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. | Bydd diwylliant a threftadaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint yn cael eu diogelu am flynyddoedd i ddod. Bydd cyfleusterau modern yn annog cyfranogiad mewn ystod eang o weithgareddau nad ydynt o bosibl ar gael yn y lleoliadau presennol.<br><br>Cydnabyddir na fydd y cynnig yn hyrwyddo'r Gymraeg yn uniongyrchol. Fodd bynnag, ni fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg chwaith. Mae Asesiad o Effaith ar y Gymraeg wedi'i ddatblygu fel rhan o'r ymgynghoriad. |
| **Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang** | |
| Cenedl sy'n ystyried a fyddai gwneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a lles diwylliannol Cymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i les byd-eang. | Buddsoddi mewn technolegau 'gwyrdd' a dulliau adeiladu i ddiwallu targedau Sero Net, a fydd yn cael effaith fyd-eang yn y pendraw. |

## RHAN F.  Cyfraniad at Ddatblygu Cynaliadwy

| Disgrifiad | Cyfraniad |
|---|---|
| **Hirdymor** | |
| Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd. | Mae'r cynnig yn anelu at ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc astudio drwy'r ffydd Gatholig.   Bydd y trefniant ysgol 3-18 yn creu safle arbennig ar gyfer hyrwyddo gwerthoedd Catholig o oedran ifanc i fywyd oedolyn, gan gynnig mynediad at addysg drwy unrhyw ofodau cymunedol.<br>Drwy leoli'r cyfleusterau hyn mewn tref sefydledig a bywiog, ystyrir bod y cynnig yn allweddol ar gyfer cyflawni nifer o strategaethau sefydliadol a chenedlaethol, megis sefydlu rhwydwaith ysgolion cryfach a mwy cynaliadwy ac uchelgais Llywodraeth Cymru i fod yn genedl Di-Garbon Net erbyn 2050. |
| **Integreiddio** | |
| Ystyried sut y gall amcanion lles y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r amcanion lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. | Mae pob Amcan Lles yng Nghynllun Cyngor Sir y Fflint yn cyfrannu at bob un, neu sawl un o'r Nodau Lles ac yn parhau i gael eu hadolygu. Amcan lles Sir y Fflint: Galluogi a Chefnogi ein Cymunedau sy'n Dysgu sy'n cyd-fynd agosaf gyda'r cynnig hwn ac mae'r manylion yn yr adran nesaf. |
| **Cyfranogi** | |
| Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal mae'r corff yn ei gwasanaethu. | Gwahoddir budd-ddeiliaid allweddol i helpu i siapio canlyniad y cynnig. |
| **Cydweithio** | |
| Gweithredu mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei | Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam yn cynnwys asiantaethau allweddol sy'n cynrychioli llywodraeth leol, iechyd, yr heddlu, tân ac |

| Disgrifiad | Cyfraniad |
|---|---|
| hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles. | achub, addysg, yr amgylchedd a'r trydydd sector. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi arwain at gyhoeddi 'Cynllun Lles 2023-2028' y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n amlinellu'r amcanion allweddol yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br>Rydym yn cydweithio gyda sawl budd-ddeiliad mewnol ac allanol wrth i ni ddatblygu'r dyluniad ar gyfer ein hysgolion newydd. |
| **Atal** | |
| Sut y gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. | Atal gostyngiad mewn lleoedd gwag drwy dynnu ysgolion sydd heb eu llenwi, sydd ag adeiladau aneffeithlon, o'r rhwydwaith Catholig. Mae'n rhaid i ni gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Mae hyn yn cynnwys addasu i newidiadau demograffig a sicrhau bod stad ein hysgol yn addas i'r diben yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. |

## RHAN G. Asesiad Amcanion Lles Sir y Fflint (Cynllun y Cyngor 2023-28)

Er mwyn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi gosod ei amcanion lles ei hun ar gyfer 2023/2028. Mae'r Amcanion Lles hyn wedi cael eu dewis fel y meysydd lle mae'r Cyngor yn credu y gall wneud gwahaniaeth cadarnhaol a'r cyfraniad mwyaf tuag at y nodau lles. Mae'r cynnig hwn yn gysylltiedig â'r Amcan Lles: Galluogi a Chefnogi ein Cymunedau sy'n Dysgu a'r effaith y bydd yn ei gael.

| Disgrifiad | Effaith Bosibl |
|---|---|
| • **Addysg a Sgiliau**<br><br>Galluogi a Chefnogi Cymunedau sy'n Dysgu<br><br>• **Ymgysylltiad a Chyflawniad Addysgol**<br><br>Darparu cyfleoedd dysgu amrywiol i gefnogi cyflawniad addysgol mewn ysgolion a chymunedau | Mae'r cynnig yn cyfrannu at ddarpariaeth barhaus strategaeth hirdymor ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn adeiladau ysgolion i wella ansawdd adeiladau ysgolion, gan hyrwyddo cynaliadwyedd a gostwng y gwaith cynnal a chadw sydd yn aros i gael ei wneud. |

| Disgrifiad | Effaith Bosibl |
|---|---|
| • **Cyfleoedd Dysgu Digidol**<br><br>Cefnogi ymgysylltiad a chyflawniad addysgol drwy wneud defnydd rhagweithiol o gyfryngau digidol hygyrch<br><br>• **Amgylcheddau Dysgu**<br><br>Creu amgylcheddau dysgu uchelgeisiol a hyblyg<br><br>• **Rhwydweithiau Cymuned sy'n Dysgu**<br><br>Cefnogi ein cymunedau sy'n dysgu i ymgysylltu a chyflawni drwy weithio mewn partneriaeth eang sy'n cael eu hategu gan arferion diogelwch cyffredin<br><br>• **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)**<br><br>Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br><br>• **Lles**<br><br>Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i ddarparu cyfleoedd i blant, pobl ifanc a'r gweithlu addysg i ymgysylltu mewn gweithgareddau sy'n cefnogi eu hiechyd a lles emosiynol. | Mae'r cynnig rhagweithiol hwn yn lleihau llefydd gwag a all arwain at ysgolion sydd wedi'u hariannu'n well, a rhyddhau adnoddau i'w buddsoddi mewn ardaloedd eraill. Yn y pendraw, bydd hyn o fudd i nifer o blant ac yn gwneud y ddarpariaeth gyffredinol yn fwy cynaliadwy.<br><br>Darparwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg gyda'r dogfennau Ymgynghori ac mae wedi'i ddadansoddi yn Adroddiad yr Ymgynghoriad. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu rhannu gyda Fforwm CSCA.<br><br>Gall amgylcheddau dysgu gwell wella lles disgyblion a staff, gellir cynnwys y technolegau diweddaraf mewn i'r dyluniad a gellir darparu offer newydd, ac fe all y cyfan wella'r profiad dysgu. |

## RHAN H. Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol

| Nodwedd Warchodedig | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| Oedran | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Ni fydd y cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail oedran. Mae'r cynnig yn ceisio darparu gwell cyfleoedd addysgol i bawb. |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| Ailbennu rhywedd. | Rhagwelir effaith gadarnhaol | Mae'n rhaid i ysgolion yng Nghymru ddarparu toiledau ar wahân yn ôl rhyw ar gyfer disgyblion dros 8 oed, ond mae'n rhaid iddynt gael hyblygrwydd i gynnig toiled sy'n niwtral o ran rhywedd a dewisiadau newid i wella diogelwch, cysur a chynhwysiant ar gyfer yr holl ddysgwyr, staff ac ymwelwyr. Mae'r cynnig hwn yn darparu cyfle i ymgorffori cyfleusterau addas ar gyfer rhai o unrhyw rywedd, yn y broses ddylunio. |
| Anabledd | Disgwylir effaith gadarnhaol | Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn cydymffurfio'n llwyr â deddfwriaeth yn ymwneud â chydraddoldeb a gwahaniaethu ar sail anabledd. Efallai nad oes gan yr ysgolion presennol amgylcheddau safonol ar gyfer disgyblion.<br><br>Rydym yn cydnabod bod gan nifer o blant neu bobl ifanc ag ADY anabledd. At ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 - mae anabledd yn un rhan o'r diffiniad o ADY a gall y rhan arall (anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran) gyfrif fel anabledd mewn rhai achosion.<br><br>Natur unrhyw gynnig sylweddol i ad-drefnu ysgol yw y bydd pob disgybl yn profi newid. Bydd y Cyngor yn ceisio paratoi'r plentyn a'r oedolion sy'n gweithio gyda'r plentyn yn y ffordd orau bosibl i leihau effaith y newid. Bydd anghenion yn cael eu hadolygu yn unol â chyfrifoldebau statudol y Cyngor a'u haddasu tuag at ddysgwyr unigol.<br><br>Mae gan y Cyngor hanes cryf o gefnogi dysgwyr drwy symud i safleoedd newydd, gan gynnwys pontio llwyddiannus i adeiladau newydd. Mae hyn wedi golygu mwy o gefnogaeth i ysgolion a'r holl ddysgwyr gyda mesurau penodol fel ymweliadau amser tawel i helpu disgyblion gydag ADY i addasu'n llyfn.<br><br>Wrth adeiladu ysgol newydd, mae cyfle i wella cyfleusterau ar gyfer disgyblion gydag ADY i gynnwys:<br>• Ystafelloedd addysgu ac ymyrraeth i grwpiau bychain<br>• Ystafelloedd tawel wedi'u dylunio i reoli emosiynau<br>• Mannau i reoli synhwyrau ac ysgogiad isel |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
| --- | --- | --- |
| | | • Cyfleusterau hylendid a hygyrchedd arbenigol<br>• Coridorau lletach, gwell acwsteg a chynlluniau llawr wedi'u dylunio'n ystyriol<br>• Mannau synhwyraidd a lles yn yr awyr agored<br>• Ardaloedd seibiant sy'n cefnogi cyfnodau o dawelu a chynhwysiant<br><br>Bydd y rhain i gyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ddylunio.<br><br>Safbwynt y Cyngor yw y byddai disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cefnogaeth lawn mewn unrhyw ysgolion amgen. Bydd sefydlu adeilad ysgol modern yn cael effaith gadarnhaol ar blant ag ADY ac anableddau yn yr hirdymor.<br><br>Mae Asesiad Effaith ar ddisgyblion ag ADY wedi cael ei baratoi ar wahân ar gyfer y cynigion hyn. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Bydd staff yn cael eu cefnogi gan bolisïau priodol sydd yn eu lle i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg drwy gydol y broses. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Bydd staff yn cael eu cefnogi gan bolisïau priodol sydd yn eu lle i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg drwy gydol y broses. |
| Hil | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Ni fydd y cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail hil. Mae'r cynnig yn ceisio darparu gwell cyfleoedd addysgol i bawb. |
| Crefydd a Chred | Rhagwelir effeithiau cadarnhaol a negyddol | Yn dilyn yr ymgynghoriad derbyniwyd sylwadau am yr effaith ar y grefydd Gatholig. Roedd yr ymatebwyr yn pryderu y byddai cau'r ysgolion yn lleihau'r dewis addysgol ar gyfer teuluoedd sy'n ceisio addysg sy'n seiliedig ar ffydd yn sylweddol, gan orfodi teuluoedd i ddewis ysgolion seciwlar ac yn dirywio hunaniaeth Gatholig yn eu hardal.<br><br>Cydnabyddir y bydd ysgolion ffydd yn cael eu colli yn y rhwydwaith mewn ardaloedd penodol o'r Sir, lle bo'r galw'n isel. Gall yr Eglwys Gatholig barhau i fod yn bresenoldeb pwysig mewn ardaloedd lle nad |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| | | oes yna ysgolion Catholig. Gall yr Eglwys ymgysylltu â lleoliadau eraill, yn cynnwys ysgolion nad ydynt yn ysgolion ffyrdd, er mwyn cynnig gofal a gweithgareddau sy'n seiliedig ar ffydd.<br>Cydnabyddir y gallai rhai teuluoedd orfod teithio ymhellach i gael mynediad at addysg Gatholig. Fodd bynnag, mae addysg enwadol wedi cynnwys dalgylch ehangach erioed, a bydd cymhwysedd cludiant yn parhau i gael ei asesu yn unol â pholisi'r Cyngor.<br>Mae'r Cyngor yn credu bod rhesymoli a gwella'r cynnig addysgol yn mynd i ddiogelu dyfodol addysg yn seiliedig ar y ffydd Gatholig. Mae'r Esgobaeth Gatholig yn cefnogi'r cynnig yn llawn. |
| Rhyw | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Ni fydd y cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail rhyw. Mae'r cynnig yn ceisio darparu gwell cyfleoedd addysgol i bawb. |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Ni fydd y cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Mae'r cynnig yn ceisio darparu gwell cyfleoedd addysgol i bawb. |

## RHAN I. Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth

| Disgrifiad | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr | Effeithiau Cadarnhaol a Negyddol | Bydd disodli adeiladau aneffeithlon â chyfleusterau di-garbon net yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.<br>Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd yn rhaid i blant o gymunedau lle cynigir gwaredu ysgol deithio ymhellach i fynychu ysgol Gatholig arall. Gallai hyn arwain at gynnydd mewn traffig a rhagor o allyriadau nwyon tŷ gwydr gan gerbydau petrol a disel o ganlyniad. |

| Disgrifiad | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| Cynllunio ar gyfer newid hinsawdd yn y dyfodol | Effeithiau Cadarnhaol a Negyddol | Cadarnhaol - Disodli adeiladau aneffeithlon â chyfleusterau Di-garbon Net. Mae gan y Cyngor gofnod da o ddarparu ysgolion newydd sy'n effeithlon o ran ynni a gyda thargedau sero net LIC wedi'u gweithredu ar 2 ysgol newydd mae'r dysgu drwy brofiad wedi cynyddu, er mwyn i ni allu cynllunio'n effeithiol ar gyfer newid hinsawdd yn y dyfodol.<br><br>Negyddol – cydnabyddir y bydd y cynnig yn arwain at dynnu dwy ysgol o'r rhwydwaith addysg Gatholig ac mae'n bosibl y bydd gan blant a phobl ifanc sydd ar hyn o bryd yn mynychu Sant Anthony a Dewi Sant fwy o bellter i deithio i'r ysgol newydd gan o bosibl gynyddu traffig. |
| Diogelu dyfroedd arfordirol a mewndirol | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | |
| Llygredd: aer/dŵr/pridd/sŵn a dirgryniad/allyriadau | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | |
| Gwella bioamrywiaeth | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Gall hyn fod yn gadarnhaol gan y gellir defnyddio'r tir lle cynigir cau ysgolion ar gyfer gwella bioamrywiaeth yn yr ardal. Fodd bynnag, nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud o ran beth fyddai'n digwydd i unrhyw dir. |
| Annog defnyddio adnoddau'n effeithlon (ynni/dŵr/deunyddiau a mwynau) | Rhagwelir effaith gadarnhaol | Mae gwaredu adeiladau aneffeithlon o ran ynni o'r rhwydweithiau ysgol yn lleihau effaith newid hinsawdd pellach.<br><br>Bydd adeiladau di-garbon net newydd yn cynnwys mesurau ynni gwyrdd, a allai gynnwys pŵer solar a phympiau gwres yr awyr, sy'n eu gwneud yn fwy effeithlon.<br><br>Gyda dau adeilad ysgol di-garbon net newydd wedi agor eleni yn y Sir y Fflint, rydym wedi gweithio gyda Chontractwyr sy'n defnyddio technegau dylunio ac adeiladu arloesol i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau. |

| Disgrifiad | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| Lleihau faint o wastraff a gaiff ei gynhyrchu a chynyddu ailgylchu, adfer ac ailddefnyddio | Rhagwelir effaith gadarnhaol | Disodli adeiladau aneffeithlon â chyfleusterau Di-garbon Net. Yn ystod y cam adeiladu a thu hwnt mae gan gontractwyr dargedau i leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu, adfer ac ail-ddefnyddio. |
| Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau cludiant cynaliadwy | Effeithiau cadarnhaol a negyddol | Cadarnhaol - Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn archwilio llwybrau cerdded diogel i'r ysgol ac yn hyrwyddo cerdded, beicio a dulliau cludiant amgen i geir unigol.<br><br>Negyddol - bydd y cynnig yn arwain at waredu dwy ysgol o'r rhwydwaith. Bydd yn rhaid i blant a phobl ifanc sy'n mynychu'r ysgolion hyn deithio i safleoedd eraill. Os bydd disgyblion yn aros mewn addysg Gatholig, mae'n debygol y bydd yn rhaid iddynt deithio ymhellach. |
| Gwella'r amgylchedd ffisegol: tai, gwasanaethau cyhoeddus, mynediad at fannau gwyrdd a'u hansawdd | Effaith gadarnhaol | Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn gynllun modern ac yn cyd-fynd â'r ardal gyfagos lle bo modd.<br><br>Mae pwysigrwydd cynnal ysgolion o fewn eu cymunedau lleol wedi ymddangos fel elfen gref yn yr ymgynghoriad gan hawlio eu bod yn ganolfannau cymunedol. Cydnabyddir fod gan ysgolion swyddogaeth bwysig yn eu cymunedau, gyda'r posibilrwydd o agor eu gofodau gwyrdd a chyfleusterau. Gydag unrhyw adeilad ysgol newydd mae cyfle i wella mynediad Cymunedol mewn gofodau sydd wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer gwaith aml-asiantaeth a mynediad at gaeau chwaraeon.<br><br>Fel y nodir uchod, gellid defnyddio tir lle cynigir cau adeiladau ysgol er mwyn gwella bioamrywiaeth yr ardal a chreu mwy o ofod gwyrdd o bosib. Fodd bynnag, nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud o ran beth fyddai'n digwydd i unrhyw dir. |
| Gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol a'r dreftadaeth bensaernïol, archeolegol a diwylliannol | Effaith negyddol | Byddai'r cynnig yn arwain at waredu dau adeilad ysgol sydd ag arwyddocâd hanesyddol, pensaernïol a diwylliannol.<br><br>Er bod gan yr Ysgolion Catholig werth emosiynol a hanesyddol, mae'n rhaid asesu'r achos dros eu cadw yn feirniadol yn erbyn |

| Disgrifiad | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| | | safonau addysgol, cynaliadwyedd ariannol a blaenoriaethau strategol hefyd. Mae’r Cyngor a’r Esgobaeth o’r farn y bydd y cynnig hwn yn sicrhau dyfodol addysg Gatholig a’i foderneiddio ar gyfer dyfodol cynaliadwy. |

## RHAN J.  Asesiad o’r Effaith ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn

| Disgrifiad | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| Dim gwahaniaethu | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | |
| Lles gorau'r plentyn | Rhagwelir effeithiau cadarnhaol a negyddol | Cadarnhaol - mae’r cynnig yn darparu amgylchedd dysgu modern a llawn ysbrydoliaeth (drwy Garbon Sero Net) a fydd yn gwella profiad addysg disgyblion a lleoliad gwaith staff.<br><br>Yn ogystal â hynny, mae’n debygol y bydd y cynnig yn darparu mannau gwyrdd megis caeau chwarae ac ysgol goedwig a fydd yn hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.<br><br>Hefyd, bydd lleihau nifer y llefydd gwag yn lleihau gwariant refeniw aneffeithiol er mwyn cefnogi dysgu ac addysgu effeithiol.<br><br>Negyddol – cydnabyddir drwy dynnu dwy ysgol o’u hardal leol bydd angen i rai plant deithio ymhellach i barhau â’u haddysg Gatholig. Yn ystod y cyfnod Ymgynghori a Gwrthwynebu roedd yna bryder, yn arbennig ar gyfer disgyblion iau, y byddai hyn yn cynyddu eu diwrnod ysgol gydag amseroedd teithio hwy. Mae Asesiad o Effaith ar Gludiant ar wahân wedi’i ddatblygu ar gyfer y cynigion hyn. |

| Disgrifiad | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| Hawl i oroesi a datblygu | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Mae'r cynnig yn ceisio darparu addysg Gatholig o'r radd flaenaf mewn amgylchedd dysgu cyfoes lle y gall plant a phobl ifanc ffynnu a datblygu i fodloni heriau'r byd.<br>Nid yw'r cynnig yn cael gwared ar hawl rhieni/gofalwyr i ddewis addysg Gatholig i'w plentyn. |
| Hawl i leisio barn | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol<br>Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)<br>'Mae gan blant hawl i ddweud eu barn ar yr hyn ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, a bod eu safbwyntiau yn cael eu cymryd i ystyriaeth.' | Ymgynghorwyd â phlant a phobl ifanc yn yr holl ysgolion yr effeithir arnynt yn uniongyrchol, a'r rhai ar Fforwm Sir y Fflint Ifanc gan ddefnyddio gwybodaeth a oedd yn addas i'w grŵp oedran.<br>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai digwyddiadau'n cael eu cynnal trwy gydol y broses adeiladu er mwyn addysgu plant ar beth sy'n digwydd, goblygiadau Di-garbon Net y gwaith adeiladu, a beth mae'n ei olygu ar gyfer eu haddysg. Anogir plant a phobl ifanc i ryngweithio lle bo modd a chyfrannu at ganlyniadau posibl. |

## RHAN K. Asesiad o Effaith ar Iechyd

| Disgrifiad | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| Ffordd o fyw | Effeithiau Cadarnhaol a Negyddol | Cadarnhaol - Bydd yr ysgol yn hyrwyddo Mesurau Teithio Llesol i annog plant a phobl ifanc, yn ogystal â rhieni/gofalwyr i ddefnyddio ffyrdd mwy cyfeillgar yn amgylcheddol i deithio i/o'r ysgol (er enghraifft, cerdded a beicio yn hytrach nag un disgybl mewn car). Rydym yn cydnabod na fydd hyn yn bosibl ar gyfer y rhai hynny sy'n byw ymhellach.<br>Yn ogystal â hynny, byddai'r cyfleusterau newydd a fyddai'n cael eu hadeiladu'n cefnogi gweithgareddau ysgol, megis chwaraeon a drama, i annog cyfranogiad gydag eraill. Byddant |

| Disgrifiad | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| | | hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol megis digwyddiadau cymunedol ac addysg i oedolion.<br><br>Negyddol - Drwy waredu dwy ysgol o'u cymunedau, cydnabyddir y gallai fod yn anoddach i blant a rhieni/gofalwyr barhau ag addysg Gatholig. Mae ysgolion ffydd ar wasgar ar draws y sir, ac felly gall teithio i'r ysgol agosaf nesaf arwain at lai o ddisgyblion yn cerdded a beicio i'r ysgol a mwy o deithio mewn car neu ar fws.<br><br>Lliniaru - Yn ychwanegol at ei rwymedigaethau statudol, mae'r Cyngor hefyd yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cymwys o oedran statudol i'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir agosaf, lle mae cofrestru ar gyfer yr ysgol ar sail enwad, yn amodol ar y meini prawf pellter. Bydd teuluoedd sy'n wynebu caledi neu rwystrau yn cael eu nodi'n gynnar, a bydd cefnogaeth yn cael ei chynnig o fewn fframweithiau'r polisi.<br><br>Negyddol - Mae'n anoddach i blant sy'n mynychu ysgol nad yw wedi'i lleoli yn eu cymuned gyfagos ymgysylltu â gweithgareddau ysgol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol. |
| Dylanwad Cymdeithasol a Chymunedol ar Iechyd | Rhagwelir effeithiau Cadarnhaol, Niwtral a Negyddol | Cadarnhaol - Gallai'r ysgol newydd a fyddai'n cael ei hadeiladu gynnwys man cymunedol pwrpasol gyda mynediad annibynnol. Bydd hyn yn galluogi ystod ehangach a mwy cynaliadwy o weithgareddau cymunedol a allai gael eu llywio gan iechyd.<br><br>Niwtral - Nid yw'r ysgol yn Saltney'n cael ei defnyddio'n rheolaidd gan y gymuned ac felly ni fyddai'n rhaid i grwpiau ganfod safle arall pe bai'r ysgol yn cau.<br><br>Negyddol - Mae grwpiau cymunedol yn defnyddio cyfleusterau yn Ysgol Dewi Sant yn yr Wyddgrug a byddai'n rhaid ail-leoli'r rhain i rywle arall o fewn y gymuned. |
| Lles Meddyliol | Rhagwelir effeithiau Cadarnhaol a Negyddol | Cadarnhaol - Bydd yr amgylchedd dysgu modern ac ysbrydoledig yn gwella lles meddyliol disgyblion a staff. Mae |

| Disgrifiad | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| | | hyn hefyd yn wir am y mynediad at gaeau chwarae ac ardaloedd natur a gaiff eu datblygu.<br><br>Negyddol - Ar gyfer y disgyblion hynny a fydd yn gorfod trosglwyddo i ysgol arall, fe allai fod yn heriol ac achosi pryderon tymor byr mewn perthynas â symud.<br><br>Lliniaru - Bydd pob disgybl yn cael cynnig cefnogaeth bontio a bugeiliol er mwyn lleihau unrhyw bryderon mewn perthynas â phontio i ysgol newydd.<br><br>Mae gan y Cyngor brofiad helaeth o gefnogi disgyblion ADY drwy ad-drefnu ysgolion. Mewn prosiectau blaenorol, bu i gynlluniau cyfnod pontio personol alluogi dysgwyr diamddiffyn i addasu’n ddiogel a hyderus. Os bydd y cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, byddai disgyblion ag ADY yn derbyn:<br>• Cynlluniau pontio personol yn seiliedig ar anghenion unigol<br>• Mwy o ymweliadau ymgyfarwyddo yn ystod y cyfnod pontio<br>• Cefnogaeth weledol, straeon cymdeithasol ac esboniadau sy’n addas i ddisgyblion<br>• Cyfleoedd i ddisgyblion gyfarfod staff newydd ymlaen llaw<br>• Cyfnodau pontio graddol, gan gynyddu’r amser a dreulir ar y safle’n raddol pan fo angen<br>• Cyswllt agos rhwng Cydlynwyr ADY, athrawon dosbarth, teuluoedd ac asiantaethau allanol |

| Disgrifiad | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| Amodau Byw / Amgylcheddol sy'n effeithio ar Iechyd | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | |
| Amodau economaidd sy'n effeithio ar Iechyd | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | |
| Mynediad at Wasanaethau a'u hansawdd | Rhagwelir effeithiau cadarnhaol a negyddol | Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc yn Sir y Fflint fynediad at addysg o ansawdd a bod yr ystâd ysgolion yn addas i bwrpas, gan ddarparu'r cyfleoedd gorau i'r disgyblion.<br><br>Yn aml y flaenoriaeth mewn addysg yw safon yr addysgu, adnoddau, a chanlyniadau myfyrwyr—ffactorau y gall fod yn gryf mewn ysgolion seciwlar.<br><br>Roedd gwrthwynebiad cryf yn yr ymgynghoriad cyntaf a'r cyfnod gwrthwynebu y dylai rhieni gael hawl i gael mynediad at addysg Gatholig yn lleol. Nid yw'r cynnig yn cael gwared ar ddewis rhieni/gofalwyr i ddewis addysg Gatholig. Er y cydnabyddir efallai na fydd mynediad mor 'lleol' ar gyfer rhai os yw'r ysgol leol yn cau, mae llefydd addysg Gatholig ar gael i'r dysgwyr hynny sydd angen symud ac mae dal ar gael mewn ardaloedd cyfagos. Bydd cefnogaeth â chludiant neu bartneriaethau gydag ysgolion Catholig eraill yn helpu i gynnal y mynediad.<br><br>Cydnabyddir hefyd y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at deithio ychwanegol i'r ysgol ar gyfer disgyblion lle mai'r ysgolion a allai gau yw eu hysgol agosaf ar hyn o bryd. Er byddai cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cymwys yn unol â'r polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer addysg seiliedig ar ffydd, cydnabyddir y gallai effeithio ar allu rhai disgyblion i gael mynediad at weithgareddau ar ôl ysgol, a gallu rhieni i gymryd rhan mewn digwyddiadau ysgol, cyfarfodydd ac ati. |

| Disgrifiad | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| Sicrhau bod oedolion a phlant yn cael eu diogelu | Rhagwelir effaith gadarnhaol | Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai unrhyw gynllun yn cynnwys ffens ddiogelwch er mwyn sicrhau mai dim ond pobl sydd wedi derbyn caniatâd gan yr ysgol fydd yn gallu cael mynediad at yr ardaloedd ble mae plant a phobl ifanc yn dysgu a chwarae.<br><br>Mae gofynion diogelu modern yn sicrhau y bydd gan unrhyw adeiladau newydd ddrysau a reolir a dim ond y bobl sydd â cherdyn diogelwch priodol fydd yn gallu gweithredu'r drysau hyn.<br><br>Codwyd pryder yn yr ymgynghoriad cyntaf o ran cyd-leoli plant oed Cynradd ac Uwchradd. Mae gan y Cyngor enghreifftiau llwyddiannus o drefniadau campysau sydd wedi'u cydleoli lle mae dysgwyr 3-16 oed yn cael addysg yn ddiogel.<br><br>Codwyd sawl pryder o safbwynt diogelu mewn perthynas â chludo plant ifanc ar fysiau. Mae'r pryderon yn rhai dilys ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cael eu cefnogi gan fesurau diogelwch priodol a datrysiadau ymarferol. Ein nod yw cydbwyso anghenion unigol gyda buddion addysgol a chymunedol ehangach, gan sicrhau y gall pob plentyn gael mynediad i'r ysgol yn ddiogel ac yn hyderus.<br><br>Mae'r adroddiad ymgynghori yn cynnwys Asesiad o Effaith Cludiant sy'n asesu amseroedd siwrneiau posibl a chymhwysedd cludiant yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Cyngor. Mae'r asesiad hwn yn dangos tra gallai rhai disgyblion deithio am amseroedd hirach, mae'r rhain yn parhau o fewn pellteroedd a hyd a gaiff eu rheoli mewn mannau eraill yn Sir y Fflint ar gyfer darpariaeth addysg enwadol a gwledig.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod pryderon yn ymwneud ag absenoldeb trefniadau cludiant gweithredol manwl yn y cam hwn. O dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, mae cynllunio cludiant manwl yn cael ei ddatblygu'n briodol yn dilyn penderfyniad i fwrw ymlaen, pan fydd niferoedd disgyblion, llwybrau a |

| Disgrifiad | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| | | chymhwysedd yn cael eu cadarnhau. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod trefniadau cludiant yn gymesur, yn cydymffurfio ac yn seiliedig ar ddata cywir.<br>Os byddant yn bwrw ymlaen â'r cynnig, fe fydd y Cyngor yn:<br>• cynnal asesiad llwybrau cerdded diogel llawn;<br>• cynnal asesiad risg cludiant manwl i ddisgyblion iau;<br>• cynnal gofynion diogelu cytundebol ar gyfer darparwyr cludiant, yn cynnwys safonau goruchwyliaeth, hebryngwyr â gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gweithdrefnau mewn argyfwng.<br>Dim ond pan fydd yn bodloni safonau diogelu a gofynion statudol y bydd darpariaeth cludiant yn cael ei weithredu. Ni fydd trefniadau cludiant yn cael eu cyflwyno heb asesiad risg a monitro priodol. |
| Galluogi mwy o bobl i fyw'n dda ac yn annibynnol gartref | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | |
| Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | |

## RHAN L.  Asesiad o'r Effaith ar Dlodi

| Disgrifiad | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| Lleihau tlodi tanwydd | Rhagwelir effeithiau Cadarnhaol a Negyddol | Gallai hyrwyddo Mesurau Teithio Llesol arwain at ragor o blant a phobl ifanc yn yr ardal leol yn cerdded neu feicio i/o'r ysgol gan leihau'r niferoedd sydd angen defnyddio ceir.<br><br>Negyddol - Cydnabyddir hefyd efallai y bydd yn rhaid i rai teuluoedd a staff deithio yn bellach i dderbyn mynediad at addysg Gatholig a'u man gwaith, a allai arwain at effaith ariannol ar eu cyfer.<br><br>Bydd teuluoedd sy'n wynebu caledi neu rwystrau yn cael eu nodi'n gynnar, a bydd cefnogaeth yn cael ei chynnig o fewn fframweithiau'r polisi.<br><br>Mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion cymwys o oedran statudol i'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir agosaf, lle mae cofrestru ar gyfer yr ysgol ar sail enwad, yn amodol ar y meini prawf pellter. Bydd teuluoedd sy'n wynebu caledi neu rwystrau yn cael eu nodi'n gynnar, a bydd cefnogaeth yn cael ei chynnig o fewn fframweithiau'r polisi. |
| Gwella cyfleoedd gwaith lleol | Rhagwelir effeithiau Cadarnhaol a Negyddol | Cadarnhaol - Anogir partneriaid adeiladu i ymgysylltu â chyflenwyr ac is-gontractwyr lleol i gwblhau unrhyw waith.<br><br>Negyddol - gallai tynnu dwy ysgol o'r rhwydwaith leihau cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol yn yr ardaloedd hynny, ond mae cyfle i gadw staff medrus a phrofiadol sydd wedi'u dadleoli, a gellir darparu cyfleoedd newydd yn ardaloedd y Fflint a Saltney gydag ysgolion newydd. |

| Disgrifiad | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| | | Lliniaru - Pe bai'r gweithrediad yn cael ei gytuno, bydd staff yn derbyn cefnogaeth ddigonol drwy'r broses. |
| Cynyddu hyfforddeiaethau a chyfleoedd am brentisiaethau | Rhagwelir effaith gadarnhaol | Mae rhan o'r cynllun buddion cymunedol a gytunwyd gyda'r adeiladwr yn cynnwys darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddeiaethau a phrentisiaethau.<br><br>Gall ysgol newydd atynnu cyfleoedd i'r ardal hon, ar gyfer hyfforddiant i athrawon, a chynllun Prentisiaeth fodern y Cyngor. |
| Diogelu pobl rhag tlodi | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Mae'r holl ysgolion yn darparu prydau ysgol am ddim ar gyfer pob dysgwr yn y sector Cynradd, a gallant gysylltu teuluoedd gyda gwasanaethau cefnogi a darparu cyfleoedd ar gyfer gofal plant sy'n fwy fforddiadwy.<br><br>Gweler uchod mewn perthynas â Thlodi Tanwydd. |
| Gwella cymwysterau a sgiliau | Rhagwelir effaith gadarnhaol | Mae'r cynnig yn ceisio darparu addysg o'r radd flaenaf gan roi cwricwlwm eang a chytbwys i'r disgyblion i wella eu canlyniadau addysgol yn y pendraw.<br><br>Mewn amgylchedd ysgol fwy gallai staff gael gwell mynediad a chyllid ar gyfer eu datblygiad proffesiynol.<br><br>Bydd y bobl a ddefnyddir yn ystod y broses adeiladu'n cael cyfleoedd i ddefnyddio eu sgiliau, a, lle bo modd, ennill cymwysterau pellach wrth gwblhau eu gwaith. |

# RHAN M. HYRWYDDO EFFAITH GADARNHAOL

Er na ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol mewn rhai meysydd, mae sawl system gefnogaeth ar waith i helpu pobl a allai gael eu heffeithio gan unrhyw newidiadau posibl, mae'r rhain yn cynnwys (nid yw'r rhestr yn rhestr gynhwysfawr):

- Bydd unrhyw ddisgybl, rhiant/gofalwr, aelod o staff neu lywodraethwr â nodwedd warchodedig yn cael cefnogaeth briodol pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.
- Bydd pob disgybl, waeth beth yw eu hoedran, rhyw, anabledd, hil, cred grefyddol ac iaith gyntaf yn cael cynnig cefnogaeth bontio a bugeiliol, os yw'r cynnig yn effeithio arnynt.
- Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i leihau aflonyddwch i bob disgybl gan roi ystyriaeth benodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd anghenion yn cael eu hadolygu yn unol â chyfrifoldebau statudol y Cyngor a'u haddasu tuag at ddysgwyr unigol. Gweler y ddogfen ar wahân ar Effeithiau ADY
- Un o fanteision ysgol fwy yw y gallant gynnig darpariaeth ADY well yn sgil y cyllid cynyddol a chyflogi staff mwy arbenigol.
- Mae perfformiad fesul rhyw yn cael ei fonitro ar lefel ysgol a bydd bylchau yn cael eu datblygu drwy'r Cynllun Gweithredu gan yr Ysgol.
- Gyda nifer o wasanaethau rhyngberthynol arbenigol, mae Gwasanaeth Cynhwysiant y Cyngor yn sicrhau bod ei ddyletswydd dan God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2001 yn cael ei gyflawni. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:
  - Gwasanaeth Seicoleg Addysg.
  - Gwasanaethau Cwnsela Pobl Ifanc.
  - Gwasanaeth Synhwyraidd.
  - Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol / Sipsiwn a Theithwyr.
  - Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol.
  - Gwasanaeth Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu.
  - Gwasanaeth Lles Addysg.
  - Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad.
  - Addysg ac Eithrio Addysg Ysgol; a'r
  - Gwasanaeth Cyflwr Sbectrwm Awtistig.
- Mae'r Cyngor yn gweithio o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau adeiladau ysgol hygyrch ar gyfer ei ddisgyblion, rhieni a gofalwyr, staff a llywodraethwyr. Caiff disgybl ag anabledd ei asesu ar sail unigol ac mae cyllideb ar gael i addasu ysgolion er mwyn i ddisgyblion gael mynediad at y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'n rhaid i newidiadau i adeiladau ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag anableddau ac mae'n rhaid iddynt fod yn gymesur ac yn rhesymol ac o fewn y gyllideb sydd ar gael.
- Bydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i fonitro darpariaeth a chyflawniad disgyblion ac ysgolion sy'n ymwneud â'r maes llafur Addysg Grefyddol a gytunwyd arno.
- Gall rhieni/gofalwyr fynegi ffafriaeth i geisio darpariaeth addysg amgen i'w plentyn. Mae ysgolion cynradd enwadol ac anenwadol i rai ar gael yn Sir y Fflint a phe bai disgyblion yn cael eu gwasgaru ac yn dymuno cael mynediad i ddarpariaeth addysg amgen.

- Mae Cyngor Sir y Fflint yn datblygu Polisi Traws ar gyfer ysgolion ar hyn o bryd. Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i ysgolion. Ydi hyn yn gywir?
- Mae gan yr ysgolion eu datganiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain, cynllun Cydraddoldeb Strategol, yn ogystal â pholisïau cyflogaeth i gefnogi staff trwy'r rhaglen newid. Dylai pob ysgol fod â'i hethos ei hun o ran hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu, a hyrwyddo perthnasoedd da.
- Bydd gan ddisgyblion a staff ag anableddau fynediad gwell i gyfleusterau ysgol.
- Bydd gan ddisgyblion a staff traws fynediad at doiledau niwtral o ran y rhywedd.
- Mae pob ysgol yn derbyn arolygon drwy Estyn.
- Cefnogaeth ar gyfer plant personél sy'n gwasanaethu- ni chafwyd unrhyw dystiolaeth yn ystod yr cyfnod Ymgynghori a Gwrthwynebu y byddai unrhyw effaith negyddol na chadarnhaol yn y maes hwn. Ond, bydd Cyngor Sir y Fflint yn sicrhau ei fod yn ceisio cyngor gan Swyddog Cyswllt Rhanbarthol y Lluoedd Arfog ar y cynigion.

## RHAN N. CASGLIAD

Mae effeithiau cadarnhaol y cynnig ar ddisgyblion, staff a'r gymuned leol yn cynnig rheswm cymhellol i'r Cyngor ystyried y cynnig fel prosiect hyfyw. Bydd disodli adeiladau'r ysgolion presennol sy'n heneiddio ag adeiladau di-garbon net cyfoes yn lleihau dibyniaeth ar danwyddau ffosil ac yn cynyddu gwytnwch y Cyngor yn erbyn hinsawdd sy'n newid yn dragwyddol.

Mae'r cynnig yn parhau â'r buddsoddiad drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i wella cyflwr adeiladau ac amgylcheddau dysgu ysgolion i blant a phobl ifanc.

Nid yw pob effaith yn gadarnhaol, a chydnabyddir y bydd effeithiau negyddol ynghlwm â'r cynnig hefyd, yn arbennig gwaredu dwy ysgol o fewn dwy gymuned, yr effaith ar ddisgyblion gydag ADY a materion cludiant sy'n gysylltiedig â cholli ysgolion lleol. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn gwneud eu gorau i liniaru, lleihau neu waredu eu heffeithiau drwy weithredu polisïau, gweithdrefnau a systemau cadarn.

Pe bai gweithredu'r cynnig yn arwain at effaith negyddol nad yw wedi'i nodi eisoes, bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i ddarparu'r gefnogaeth briodol i unigolion a/neu grwpiau yr effeithir arnynt.